

# Cofnodion



## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau

---

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Tachwedd 2022

Amser: 3.00 pm

Yn bresennol yn rhithwir: Y Cynghorwyr D Davies (Aelod Cabinet dros Addysg) ac L Lacey (Aelod Cabinet dros Seilwaith), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol), Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Lyndon Watkins (Rheolwr Gyfarwyddwr – Newport Norse), Mark McSweeney (Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Proffesiynol a Chontract – Newport Norse), Sarah Morgan (Pennaeth Addysg), Sarah Davies (Dirprwy Brif Swyddog Addysg), Geraint Willington (Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Adnoddau), Ed Pryce (Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Polisi a Strategaeth), Marc Belli (Prif Bartner Gwella Ysgolion y Gwasanaeth Cyflawni Addysg), Neil Barnett (Cynghorydd Craffu), Felicity Collins (Swyddog Llywodraethu) a Pamela Tasker (Swyddog Llywodraethu)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd K Whitehead

---

### 1 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

### 2 Partneriaeth Cyd-fenter Llychlynaidd

Gwahoddedigion:

- Tracy McKim – Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid
- Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol – Canolfan Trawsffurfio a Chorfforaethol
- Lyndon Watkins – Rheolwr Gyfarwyddwr Newport Norse
- Mark McSweeney – Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Proffesiynol a Chontract – Newport Norse
- Y Cynghorydd Laura Lacey – Aelod Cabinet dros Seilwaith

Cyflwynodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid y pwyllgor i gynrychiolwyr Newport Norse. Darparodd Rheolwr Gyfarwyddwr Newport Norse drosolwg trwy gyflwyniad o'r cynllun cyd-fentro ac roedd yn ymdrin â'r trosiant a rhannu elw ac yn ymdrin â phrif bwyntiau'r adroddiad, megis monitro perfformiad a'r trefniadau cyfarfod sydd ar waith ar gyfer adolygu a thrafodaethau gyda'r awdurdod ac ysgolion yn arbennig. Dywedodd y partner wrth y pwyllgor am y gwaith sydd wedi'i gynllunio gyda'r cyngor ar gyfer y ddwy i dair blynedd nesaf ond sicrhodd yr aelodau eu bod yn ymwybodol o'r meysydd y gallent eu gwella ac y byddant yn gweithio'n galetach gyda'r cyngor gyda chaledi yn dod yn fuan. Hysbyswyd yr aelodau o'r swyddfa a leolir ym Mharc Cleppa a chynigiwyd gwahoddiad agored iddynt ymweld â'r tîm i weld beth maent yn ei wneud.

Cododd y pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Teimlai aelod yn falch o weld bod y partneriaid yn gweithio gyda'r ysgolion i annog unigolion ifanc ar gyfer prentisiaethau. Mewn perthynas â gwerth am arian, gan ei fod yn

bwysig ar gyfer boddhad cwsmeriaid. Mae'n ymddangos bod gan nifer o benaethiaid farn negyddol ar effeithlonrwydd Norse a gofynnwyd i'r partneriaid am eu sylwadau ar hynny.

Dyweddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y gall tensiynau godi dros y blynyddoedd fel gydag unrhyw berthynas cleient/darparwr. Mae gan y partner dystiolaeth o'r rhai yr ymchwilir iddynt fesul achos, fel arfer allan o ddeg – dim ond un o'r rheini sydd ag unrhyw sylwedd i gŵyn.

Eglurodd y cyfarwyddwr mai'r Polisi Landlord Corfforaethol yw polisi'r cyngor, ac mai Newport Norse yw'r asiant ar gyfer y polisi. Tynnodd y partner sylw at adegau pan fo adeileddau wedi'u hadeiladu nad ydynt yn unol â'r rheoliadau priodol lle byddai'n rhaid i Norse wneud rhywbeth yn ei gylch i'w wneud yn ddiogel, ac roedd yn gwerthfawrogi y gallai rhai ysgolion gwyno. Pwysleisiwyd y dylai adeiladau penodol megis ysgolion fod yn ddiogel o safbwynt cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.

Nodwyd bod y partneriaid yn annog pob ysgol i fynd drwedd o ran y grwpiau cyswllt addysg fel y gallant eistedd a thrafod gyda'r ysgolion – pan fydd ysgolion yn cael dyfynbrisiau ar gyfer rhai pethau, efallai eu bod yn edrych ar ddeunyddiau gwahanol megis pren yn lle dur, er enghraifft. Cyfaddefodd y partner yn gyffredinol y gallai rhai cyflenwyr fod yn rhatach ond nid o lawer a themlai ei bod yn bwysig sôn eu bod yn talu'r cyflog byw i'w gweithwyr.

Amlygodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid ei bod yn bwysig cydnabod sut y gellir canfod pethau o ochr y cleient megis y polisi landlord corfforaethol, ac mae'n bwysig bod ysgolion yn gwybod beth yw Norse, sut mae'n cael ei brisio a pham. Maent yn gweithio'n agos gydag addysg ar hynny, ond yn cydnabod bod mwy y gallant ei wneud i wella hynny.

- Mewn perthynas ag adran ad-daliad yr adroddiad, gofynnodd aelod i'r partneriaid gadarnhau'r gyfran o'r elw mae'r awdurdod yn ei derbyn.

Rhoddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr wybod i'r pwyllgor fod hynny tua 50% yn sgil y ffordd y mae'r contract wedi'i strwythuro.

- Gofynnodd yr aelod hefyd i'r partneriaid gadarnhau beth sy'n digwydd gyda gweddill yr elw a wnaed.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y rhan fwyaf ohono yn y sector cyhoeddus, mae difidend yn mynd i'r rhiant-gwmni, sef Cyngor Dinas Norfolk a ddechreuodd Norse, a'r gweddill yn mynd i grŵp Newport Norse.

- Yna gwnaeth yr aelod sylw eu bod yn ail-fuddsoddi yn y cwmni a bod Cyngor Dinas Norfolk yn cael difidend a gofynnodd a yw hynny'n uwch na'r gyfran y mae'r partner yn ei chael.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr eu bod nhw hefyd yn rhoi eu gwaith i mewn iddo ac yn rhannu gan mai nhw yw'r prif gyfrandaliwr ond dywedodd wrth y pwyllgor nad yw'n daliad enfawr.

- Gofynnodd y cadeirydd a fyddai'r ffigur hwnnw'n cael ei gyhoeddi.

Cadarnhaodd hynny gan y Rheolwr Gyfarwyddwr ac y byddai'n mynd ar drywydd hynny i'w rannu gyda'r pwyllgor gan nad oedd yn gallu cadarnhau'r ffigur o'i gof.

- Holodd aelod pwyllgor a oedd pob un o'r 298 o weithwyr Norse ar gontract amser llawn.

Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr bod amrywiaeth o staff amser llawn a rhan-amser, yn gweithio yn y swyddfa ac yn y maes. Ar gyfartaledd, mae tua 70 i 80 mewn swyddi swyddfa wrth i'r cwmni ehangu, gyda nifer o'r rolau hynny'n rhai rhan-amser. Eu nod yw denu'r staff gorau gyda'u trefniadau hyblyg.

- Cydnabu'r aelod fod Norse yn gwario £13.9 miliwn ar gyflogau staff, a gofynnodd a oedd y nifer hwnnw'n cynnwys y gwaith sydd wedi'i is-gontractio a faint ohonynt oedd yn weithwyr amser llawn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y nifer a ddarparwyd yn cynnwys y gwaith sydd wedi'i is-gontractio. Mae gan Norse 35 aelod o staff amser llawn.

- Gofynnodd yr aelod a yw'r rhan fwyaf o'r gwaith gan isgontractwyr.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, allan o'u llafur eu hunain, eu bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw gweithredol a phrofion statudol, gyda mân waith a darparu gwasanaethau technegol, ond yn aml iawn mae modd is-gontractio gwaith.

- Cyfeiriodd y cadeirydd at astudiaeth achos Norse o ysgol oedd angen ffenestri alwminiwm ond yn archebu gan fasnachwr arall am y deunydd anghywir. Gofynnodd y cadeirydd i Norse esbonio pwy fyddai wedi cael y deunydd ar gyfer yr ysgol, pwy drafododd â nhw, a gofynnodd ai contractwyr oedden nhw. A gofynnwyd a ydynt yn cael amrywiaeth o bobl i gynig ac yna a yw Norse yn dewis y gorau.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Contractau mai'r mater sy'n eu hwynebu yw mai'r ysgol yw'r prynwr a nhw sy'n pennu'r manylion a chadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad oes yn rhaid i'r ysgol eu defnyddio.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Contractau ei bod yn wir eu bod yn adolygu'r cynigion ac yn dewis pa un fyddai orau.

- Gofynnodd y cadeirydd i'r partneriaid a fyddai'r rhai a grybwyllwyd yn lleol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Contractau bod hynny'n wir gan eu bod yn bwriadu llogi a dod â rhai lleol i mewn. Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr bod yna ystadegyn ar dudalen 11 sy'n amlygu bod tua 79% o'r gwaith yn cael ei roi'n lleol.

- Cyfeiriodd aelod at nifer y prentisiaid dan hyfforddiant, sef 25, a gofynnodd beth mae'r partneriaid yn ei wneud i annog menywod ac unigolion o leiafrifoedd ethnig i weithio yn y diwydiant adeiladu.

Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cydnabod bod mwyafrif yr unigolion sy'n dod i weithio yn ddynion ac maent wedi cael trafferth newid yr ystadegyn hwnnw gan eu bod wedi brwydro am lafur uniongyrchol. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai tîm Norse yn hoffi cael gweithwyr benywaidd yn y maes hwnnw ac roeddent yn gwerthfawrogi ei fod yn rhywbeth y mae angen iddynt weithio arno. Crybwyllwyd bod ganddynt nifer sylweddol o fenywod o ran rolau swyddfa, a'u rhaniad rhyw yn y gweithlu cyffredinol yw 40/60 ar hyn o bryd.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Contractau ac ychwanegodd eu bod wedi mynd i Lan-wern cyn y pandemig a bydd yn ceisio ymweld ag Ysgol John Frost i siarad am gyfleoedd gwaith adeiladu gyda'r disgyblion. Maent yn mynychu ffeiriau swyddi ac mae ganddyn nhw hefyd gynllun Kickstart lle daeth menyw â gradd yn y gyfraith i mewn ar gyfer hyfforddiant ac mae bellach wedi cael rôl barhaol yno.

- Gofynnodd aelod i'r partneriaid a ydynt yn gweithio gyda phrifysgolion lleol i ddenu myfyrwyr i'r rolau.

Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cydnabod y gallent ymchwilio iddo gan y gallent wneud mwy ar hynny. Crybwyllwyd bod y cynllun meincnodi y bu unwaith yn gweithio arno yng Nghyngor Gwlad yr Haf yn ddynion gwyn yn bennaf yn y proffesiwn. Cydnabuwyd bod cwrs yn cael ei ddatblygu gyda Jeff Bacon ym Mryste ar syrfewyr ar sut i ddod â mwy o bobl i mewn. Dywedodd eu bod yn edrych arno'n gyson gan ei fod yn farchnad gystadleuol.

- Mynegodd aelod ei ddiddordeb yn yr ystadegau hyfforddi prentisiaid gan ei bod yn rôl bwysig i uwchsgilio pobl yn yr ardal leol. Amlygwyd bod ganddynt 298 o staff a bod ganddynt 500 o ddiwrnodau hyfforddi, sy'n cyfateb i tua 1.5 diwrnod hyfforddi y pen y flwyddyn. Teimlai'r aelod nad oedd y nifer hwnnw'n swnio fel llawer o hyfforddiant.

Teimlai'r Cyfarwyddwr Contractau ei bod yn bwysig nodi bod 200 o'r staff hynny yn lanhawyr sy'n gweithio'n rhan amser ac efallai'n gweithio llai na 15 awr yr wythnos, sy'n gwyrto'r niferoedd.

Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod rhai gweithwyr yn dilyn gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes. Mae llawer o'r cydweithwyr sy'n gweithio yn y tîm gweinyddol yn dilyn cyrsiau. Pan fyddant yn cyfuno'r nifer hwnnw â nifer y staff yn y swyddfa, yna byddai'r nifer hwnnw'n codi oherwydd amlygwyd mai Norse sy'n talu am y cyrsiau hynny.

Soniodd y Cyfarwyddwr Contractau hefyd nad yw adeiladu tîm yn cael ei ystyried yn hyfforddiant. Dywedwyd wrth yr aelodau bod Norse yn gwneud llawer o waith ar hynny ond crybwyllwyd nad yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Amlygodd y Cyfarwyddwr hefyd fod ganddynt system o'r enw The Learning Hive, sef system ar-lein sy'n sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu hyfforddiant iechyd a diogelwch ac ystod o fodiwlau hyfforddi gwahanol.

- Roedd aelod yn dymuno gwybod mwy am gynlluniau'r partner ar gyfer cynaliadwyedd a gofynnodd a allai weld eu polisi ar newid yn yr hinsawdd i weld sut mae'n cyd-fynd â pholisi'r cyngor.

Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddant yn cyflwyno newid hinsawdd fel eitem sefydlog yn eu bwrdd. Maent yn cefnogi'r cyngor ar newid hinsawdd ac mae wedi'i ymgorffori ym mholisi'r amgylchedd a pholisi'r grŵp. Soniwyd mai nod carbon net y grŵp yw erbyn 2050 a nod y cyngor yw erbyn 2030.

Soniwyd bod gan Norse fflyd sylfaen draddodiadol o tua 30 o gerbydau sydd i gyd ar brydles, a'u bod yn edrych i newid i fflyd drydanol. Maent ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda'r cyngor ar ba mor hir y byddai angen i'r dyhead hwnnw ddod yn realiti.

Soniodd y Rheolwr Gyfarwyddwr hefyd eu bod yn bwriadu datblygu hyn. Nododd fod y cyngor wedi derbyn hyfforddiant llythrennedd carbon ac felly maent wedi gofyn am y darparwr fel y gallant wneud hynny ar gyfer Norse hefyd. Ychwanegodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid ei fod wedi'i grybwyll gan ei bod yn bwysig ei blethu yn eu penderfyniadau.

- Gofynnodd aelod i'r partneriaid gadarnhau cyfanswm eu helw o 2021-2022 ac a oes unrhyw ran o'r elw wedi mynd i elusennau / grwpiau cymunedol lleol. Cydnabuwyd bod Newport Norse wedi trefnu gwaith ar gyfer elusennau fel Age UK a MacMillan.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr eu bod wedi gweithio i loches leol i fenywod, a chyn pandemig COVID-19 eu bod yn gallu mynd â phlant i'r pantomeim a chefnogi Hosbis Dewi Sant a'u bod fel arfer yn gwneud taith feicio noddedig i gefnogi ysgolion hefyd ar gyfer eu citiau chwarae ac ar gyfer sefydliadau lleol.

- Gofynnodd aelod a ydynt wedi adeiladu neu fuddsoddi yng Nghasnewydd gyda phrosiectau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad ydynt wedi gwneud hynny ond eglurodd fod gan staff nifer o oriau gwirfoddoli lle gallant weithio ar brosiectau. Os oes prosiect gan Gyngor Dinas Casnewydd lle mae'n bosibl na fydd yr achos a'r dyhead yn cyfateb, gall staff Newport Norse gymryd rhan mewn swyddi fel swyddi garddio ac addurno, er enghraifft. Sicrhawyd y pyllgor bod cydweithwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio eu horiau gwirfoddoli.

Cafwyd trafodaeth am y model rhannu elw ac eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod gwerth yn cael ei rannu rhwng Norse a'r cyngor, y gellir ei rannu mewn amrywiaeth o ffurfiau i'r cyngor, megis swm ariannol neu fel nwyddau a gwasanaethau. Cydnabu'r cyfarwyddwr fod y gwerth cymdeithasol bellach yn wahanol iawn i'r gwerth pan lofnodwyd y contract yn ôl yn 2014. Yn rhan o'r drafodaeth barhaus ymhlith y bartneriaeth, pe bai'r cyngor yn ymestyn y contract, yna mae yna bethau yr hoffai'r cyngor eu gweld yn wahanol oherwydd y newidiadau dros amser.

Roedd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn cydnabod ei bod yn bwysig tynnu sylw at yr hyn y mae Dinas Casnewydd yn ei gael yn gyfnewid am y bartneriaeth, er enghraifft, gyda'r model rhannu elw. Gwnaeth y cyngor y penderfyniadau hynny ar y model rhannu elw a themlai ei bod yn bwysig crybwyll hynny. Adeg yr adnewyddiad, bydd y cyngor a'i bartner yn ystyried y rhai sy'n cael eu trafod.

- Nododd aelod fod cyflwyniad y partner yn debyg iawn i'r llynedd ac nad oes llawer o newid o ran elw/ad-daliad a gofynnodd pam nad yw'r partneriaid wedi gwneud dadansoddiad eleni o'u data canmoliaeth/cwynion. Gofynnodd yr aelod hefyd i'r partneriaid gadarnhau sut y maent yn gweld y posibilrwydd o ddwy flynedd olaf y contract yn mynd a gofynnodd ble y gallai fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r partneriaid.

Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y gwahaniaeth yn y drefn gwyno, ond cytunodd y gallent gynhyrchu mwy a rhannu mwy o fanylion ar hynny pe hoffai'r aelodau gael yr wybodaeth honno – bu newid arddull yn syml.

Roedd y cadeirydd a'r aelodau yn dymuno mynd ar drywydd hynny gyda'r partner.

Ymhellach i'r drafodaeth, parhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr i egluro y bydd y model gweithredu yn llawer mwy sicr am y ddwy flynedd olaf a bod tîm Newport Norse, gydag adborth cwsmeriaid, yn cynnal arolwg blynyddol o gwsmeriaid fel ysgolion. Eglurwyd eu bod yn gwneud y gwaith a hefyd yn gofyn am adborth tra'i fod yn cael ei wneud. Dywedwyd bod y gyfradd gymeradwyo yn debyg i 98% ac maent yn ceisio cynnal y lefel honno o foddhad a mynd y tu hwnt i hynny.

Roedd y cyfarwyddwr yn cydnabod bod yr ansicrwydd yn y berthynas wedi'i drafod oherwydd bod dwy flynedd ar ôl yn y contract. Maent yn ymdrechu i gyflenwi'r gwasanaethau gorau y gallant a'u bod wedi ymrwymo i Gasnewydd a byddant yn parhau i geisio darparu sicrwydd.

Hysbyswyd yr aelodau bod yr adborth wedi gwella a'u bod yn derbyn tua 2,000 o alwadau'r mis drwy'r ddesg gymorth, sy'n cyfateb i 1,000 o archebion gwaith. O ran maint y gweithrediadau, mae'n siŵr y bydd problemau oherwydd pe na fyddent yn derbyn cyfathrebiad gan eu cwsmeriaid yna byddai'r cwsmeriaid hynny yn cuddio'r broblem a ddim yn mynd i'r afael â'r mater. Mae hefyd er budd y staff i ddarparu gwasanaeth da gan eu bod yn lleol, felly yn dderbynwyr eu gwaith.

- Gofynnodd y cadeirydd pa mor annibynnol yw adroddiad y partner ar ganmoliaeth.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod ganddynt drefn gwyno gan fod adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r bwrdd. Soniwyd nad oedd ganddynt unrhyw gwynion yn yr un diweddaraf ac mae gan y cyngor ddau gynrychiolydd annibynnol ar y bwrdd hwnnw.

- Teimlai aelod ei fod yn gwerthfawrogi'r cysyniad o ochr perchnogaeth gyhoeddus Norse, yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w staff a phobl leol yn cael eu cyflogi drwyddynt. Fodd bynnag, nodwyd bod diffyg adborth o foddhad cwsmeriaid yn yr adroddiad. Awgrymodd yr aelod y gallai Norse gynnwys yr arolygon cwsmeriaid yn y dyfodol ar effeithlonrwydd o ran costau ac adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr eu bod, ar yr adroddiad gwerth am arian bob blwyddyn, yn rhedeg drwy hynny a chytunodd i rannu eu cofnodion adborth ar ôl y cyfarfod. Ar gyfer eu cyfraddau meincnod, maent yn cynnal arolwg blynyddol o brofiadau cwsmeriaid a sicrhawyd yr aelodau eu bod yn ystyried adborth y pwyllgor.

- Mynegodd aelod ei bryder am y model ad-dalu yn yr hinsawdd ariannol bresennol a gofynnodd i'r partneriaid a fyddent yn edrych i'w gadw yr un fath.

Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn gwerthfawrogi y gallai fod gan yr aelod farn athronyddol ar hynny. Rhoddodd y cyfarwyddwr ddadansoddiad pe bai'r cyngor yn mynd at ddarparwr arall gyda chyfradd o 10%. Pe bai'r gwaith hwnnw'n mynd trwy Norse yn hytrach na chwmmni allanol gyda'r un maint elw, mae'r cyngor mewn gwirionedd yn cael 5% yn ôl. Roedd Norse yn derbyn llai o elw nag y byddai unrhyw gwmni preifat arall. Mae'r ad-daliad ar gyfer cyfran gwerth. Mae'n bosibl y bydd y cyngor am i'r gyfran honno gael ei gwneud mewn ffordd wahanol; gallent naill ai gael ei rhoi yn ôl drwy waith a wnaed neu yn hytrach gael yr arian i'w ddefnyddio.

- Cafwyd trafodaeth a thynnodd yr aelod sylw at yr argyfwng costau byw a chredai fod y defnyddwyr gwasanaeth yn gorwario i gael yr ad-daliad yn ôl ac roedd yn ymwybodol mai arian trethdalwyr ydyw. Gwerthfawrogwyd bod y model wedi'i osod flynyddoedd yn ôl a bod y bartneriaeth yn dychwelyd arian i'r cyngor, ond teimlai'r cynghorydd yn yr hinsawdd bresennol fod prisiau Norse yn uwch nag eraill felly efallai na fyddai'r cyngor yn arbed cymaint ac y gellid dod â model newydd i mewn.

Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr sylwadau'r aelod a honnodd mai'r dewis arall i'r cyngor fyddai mewnnoli popeth, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi hefyd. Byddai'n endid enfawr i'r cyngor ei drefnu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Contractau ei fod wedi bod yn y diwydiant sector cyhoeddus ers 38 mlynedd a theimlai mai'r model presennol yw'r gorau y mae wedi gweithio ag ef gan y gallant wneud penderfyniad yn gyflym.

Cydnabu'r Rheolwr Gyfarwyddwr y pryderon a grybwyllwyd a sicrhodd y pwyllgor eu bod yn adolygu eu cyfraddau masnach meincnod ac yn eistedd yng nghanol eu cystadleuaeth. Atgoffodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yr aelodau mai dyna oedd y cynnig ar yr adeg pan gytunwyd ar y fenter ar y cyd a bod barn y pwyllgor ar sut y canfyddir y bartneriaeth a sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario yr un mor bwysig i'w nodi.

- Soniodd aelod am y cyfleusterau a gynigir i'r cyngor yn yr adroddiad, a nododd fod rheoli prosiect wedi'i gynnwys. Cyfeiriodd yr aelod at y gwaith yn Ysgol Uwchradd Basaleg gyda Wilmott Dixon a gofynnodd a oeddent wedi'u dewis neu a oedd y grŵp panel o'r ysgol yn eu dewis.

Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr mai Wilmott Dixon yw'r contractiwr a thynnodd y Cyfarwyddwr Contractau sylw at y ffaith mai ef oedd y rheolwr contract a rheddodd y dewis caffael, sef y prosiect rhwng Wilmott Dixon a'r cyngor. Soniodd y cyfarwyddwr nad oedd Norse yn ymwneud â'r trefniant contractiol, dim ond y gwaith caffael.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y gwaith caffael yn seiliedig ar y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, a'i fod yn benodol oherwydd eu trefniant ariannu.

### **Casgliadau**

- Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion o Bartneriaeth Cyd-fenter Newport Norse a bu'n ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad a ddangoswyd. Penderfynodd y pwyllgor, er bod cynnydd boddhaol wedi'i wneud yn erbyn nodau cychwynnol y bartneriaeth, soniodd rhai aelodau am anghytuno ynghylch y model rhannu elw presennol y cytunwyd arno ar ddechrau'r contract.

Gwnaed sylwadau, gyda'r sefyllfa costau byw presennol, fod y model yn gweld gorwariant ar wasanaethau a'r bartneriaeth yn peidio â dangos cyfrifoldeb corfforaethol yn uniongyrchol. Roedd yr aelodau hefyd yn dymuno gwneud sylw bod angen i'r trefniadau partneriaeth ystyried cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a gwerth cymdeithasol ymhellach wrth drafod y posibilrwydd o adnewyddu'r contract, yn ogystal ag ailystyried y model cost. Gwnaed sylw pellach y dylai'r bartneriaeth nesaf gyda Norse neu rywun arall gael ei gweithredu fel llyfr agored gyda maint elw sefydlog, efallai 3% i 4%. Ni fyddai fawr ddim risg, os o gwbl, i'r partner gan fod ganddynt 100% o'r gwaith a dylent godi'r gwir gost a dal i fod ag elw o 4% i reoli eu cyfrifoldebau.

- Mae'r pwyllgor o'r farn bod angen gwell cyfathrebu rhwng Norse a Chyngor Dinas Casnewydd / cleientiaid mewn perthynas â'r model costio.

- Y dylai Norse a'r bartneriaeth ystyried newid hinsawdd wrth wneud penderfyniadau a chynllunio.

- Diolchodd y pwyllgor i Newport Norse am eu gwahoddiad i'w prif swyddfa yng Nghasnewydd ac roedd yn dymuno manteisio ar eu cynnig i ymweld â'u safle i weld sut mae pethau'n cael eu gweithredu yno.

- Yn wahanol i adroddiad y llynedd, nid oedd y pwyllgor wedi dadansoddi unrhyw ganmoliaeth a chwynion a oedd ynghlwm. Hoffai'r aelodau dderbyn manylion llawn y cwynion. Dywedodd yr aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol gweld arolygon cwsmeriaid yn cael eu cynnal a'u cynnwys mewn adroddiadau perfformiad.

- Gofynnodd y pwyllgor i'r partneriaid ddarparu dadansoddiad manylach o nifer eu staff ac egluro faint o'r gwaith sy'n cael ei is-gontractio. Gofynnodd y pwyllgor hefyd beth oedd rhyw ac ethnigrwydd y prentisiaethau/hyfforddeion. Hoffent weld y maes hwn yn cael ei fonitro'n flynyddol a hefyd pa gamau y gallent eu cymryd i symud tuag at sicrhau bod ganddynt weithlu amrywiol.

- Hoffai'r aelodau wybod faint o arian sy'n mynd i'r gwasanaethau cyhoeddus a faint o gyfranddaliadau y mae Cyngor Norfolk yn eu cael. Mae'r aelodau hefyd yn dymuno gwybod i ble mae'r arian ad-daliad yn mynd, a sut mae'n cael ei ddefnyddio a'i gofnodi. Dywedodd yr aelodau nad yw'n dryloyw ac, o ran eglurder, yn sensitif iawn i ddehongliadau'r cyhoedd.

### 3 **Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) - Gwerth am Arian 2021-22**

Gwahoddedigion:

- Geraint Willington – Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Adnoddau
- Ed Pryce – Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Polisi/Strategaeth
- Marc Belli – Prif Bartner Gwella Ysgolion y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Sarah Davies – Dirprwy Brif Swyddog Addysg
- Sarah Morgan – Prif Swyddog Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd
- Deborah Davies – Aelod Cabinet dros Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd

Cyflwynodd y Prif Swyddog Addysg y pwyllgor i'r partneriaid a chyflwynodd yr adroddiad. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg drosolwg a chyflwyniad o Adroddiad Gwerth am Arian 2021-2022 a thynnodd sylw'r pwyllgor at y prif bwyntiau a gwahoddodd y pwyllgor i ofyn unrhyw gwestiynau y teimlent eu bod yn berthnasol. Amlygwyd bod pum awdurdod yn berchen ar y cwmni a bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddull S2S (Ysgol i Ysgol).

Gofynnodd yr aelodau y canlynol:

- Cyfeiriodd aelod at y rhan ar yr economi ac effeithlonrwydd a oedd yn crybwyll y 96% sy'n mynd i ysgolion a gofynnodd a oes unrhyw rwymedigaeth ar ysgolion i'w ddefnyddio ar gyfer gwelliant.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg drwy ddweud bod dau grant yn dod i mewn – Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol a'r Grant Datblygu Disgyblion a llawer o is-grantiau o fewn y grantiau hynny – a bod disgwyliad o fewn y rheini i'w gyflawni.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi bod yn fwy hyblyg gydag ysgolion, gan roi'r arian iddynt benderfynu beth i'w wneud. Byddai'r ysgol yn dangos i ni ar beth y dymunant ei ddefnyddio ac yn dangos sut, sydd wedyn yn cael ei gymeradwyo gan y panel yn dilyn adolygiad. Soniodd y Prif Swyddog Addysg fod gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg hefyd Grŵp Strategaeth Penaethiaid a oedd yn gweithio'n dda ar gyfer y gofynion sylfaenol a dywedodd fod y model yn synhwyrol.

- Tynnodd aelod sylw at yr ochr gyllid. Soniodd am y straen o lefelau staffio a'r argyfwng costau byw. Er y gallent fod â chyllid effeithlon ar hyn o bryd, gofynnodd yr aelod a allai'r partneriaid weld hynny'n newid.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Adnoddau y bydd yn heriol wrth symud ymlaen gyda'r cyllid o'r grantiau a Llywodraeth Cymru.

Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod y model yn gweithio ar grantiau 50% a bod hynny'n dibynnu ar yr hyn sydd gan Lywodraeth Cymru. Daw'r 50% arall gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae'n dibynnu a allant fforddio'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar werth blynyddol ond rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor ei fod yn werth rhagorol am arian. Soniwyd bod gwasanaethau rhanbarthol eraill wedi codi eu pris ond gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg nid yw hynny wedi digwydd. Mae'r cyfraniadau gydag awdurdodau lleol wedi gostwng ond mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi caniatáu iddynt gadw gwasanaeth da i weld effeithlonrwydd.

- Nododd aelod ei fod yn cael yr adroddiad yn eithaf anodd ei ddarllen fel cynghorydd newydd ei ethol gyda'r ystod o dermau ac ymadroddion anghyfarwydd. Gofynnodd yr aelod i'r partneriaid gadarnhau'r hyn yr hoffent ei gael o'r drafodaeth a gofynnodd beth mae'r ysgolion lleol yn ei dderbyn gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg bob mis.

Rhoddodd y Prif Bartner Gwella Ysgolion enghraifft o ysgol leol yng Nghasnewydd mewn partneriaeth ag ysgol yng Nghaerdydd, yr oedd gan y ddwy ysgol heriau economaidd-gymdeithasol tebyg. Daw'r plant yn yr ysgolion o'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae penaethiaid yr ysgolion wedi bod yn cydweithio ag ymarferydd mewn swydd, fel partner gwella, ochr yn ochr â mesurau mewn adroddiad Estyn oherwydd arolygiad siomedig.

Cafodd effaith sylweddol drwy'r broses ar bob lefel, a oedd yn effeithiol wrth weithio i arfarnu safon gwaith disgyblion a hefyd mae wedi sefydlu cydberthnasau anffurfiol yn y ddwy ysgol i rannu arferion effeithiol. O hyn, gwelodd yr ysgolion welliannau cyflym. Ym mis Rhagfyr 2021, gwelsant yr ysgol yng Nghasnewydd yn cael ei thynnu oddi ar yr hysbysadau gan Estyn, sy'n welliant mawr i'w adolygu. Bydd y partneriaid yn parhau i weithio'n galed gan nad oes yr un ysgol yn berffaith, gan y byddent yn hoffi adeiladu ymhellach ar hyder yr ysgolion. Canmolodd yr aelod cabinet yr ysgol uwchradd leol hefyd ar ôl ymweld â hi.

- Roedd aelod yn dymuno gwybod beth fu'r her sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i'r bartneriaeth ac a allai'r partneriaid ragweld heriau'r flwyddyn nesaf.

Esboniodd y Pennaeth Gwella Ysgolion fod y cwricwlwm newydd i Gymru a thrawsnewid ADY yn ddau newid deddfwriaethol allweddol yng Nghymru sy'n cael eu cyflwyno yn y cyfnod ôl-bandemig ac a fydd yn her i bob ysgol.



- Teimlai aelod ei bod yn dda bod yr ysgolion yn partneru ag eraill mewn ardaloedd eraill. Soniwyd y gallai fod gan rai ysgolion boblogaeth fwy o ddisgyblion o gymunedau BAME ac felly roedd yr aelod eisiau gwybod a fyddai'r ysgolion hynny'n cael mynediad at gyllid ychwanegol ar gyfer hynny, gan fod yn rhaid cael mwy o gostau i'r cyfieithwyr ar y pryd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi y byddai hynny'n benodol ar gyfer Gwasnaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS), sydd ar wahân i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ond sy'n darparu gwasanaeth drwyddo. Mae eu cydweithwr Sally Bevan yn rhedeg tîm i sicrhau bod y ddarpariaeth gywir ar waith ar gyfer athrawon. Mae llawer o raglenni'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn mynd trwy eu darpariaeth.

- Roedd aelod yn gwerthfawrogi sut y soniodd awdur yr adroddiad nad oedd ganddo fynediad at ddata cyrhaeddiad disgyblion oherwydd y newid yn yr arddull adrodd. Nododd yr aelod fod tair astudiaeth achos yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd mwy a pha mor helaeth yw'r dystiolaeth.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Polisi (Gwasanaeth Cyflawni Addysg) fod ystod eang o dystiolaeth nad yw wedi ei chynnwys yn yr adroddiad. Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu mewn ffordd nad yw'n cynnwys holl waith y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mewn perthynas â phwynt blaenorol aelod am y jargon, fe'i hysgrifennwyd ar gyfer pobl sydd â mwy o wybodaeth gyd-destunol. Dyna pam y ceisiodd y partneriaid lenwi'r bylchau ar hynny yn y cyfarfod a phwysleisiodd y byddent yn fwy na pharod i ddychwelyd i wneud hynny ond rhoddodd sicrwydd i'r aelodau bod ystod o dystiolaeth ar gael ond nad oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

- Gofynnodd aelod i'r partneriaid egluro, pan fyddant yn nodi ysgol sy'n profi problemau cyn llunio partneriaeth, pryd y byddai'r partneriaid yn ymweld ac yn gwerthuso'r materion ac a oes cyllideb ar gyfer datrys y broblem yn ogystal â'r bartneriaeth ei hun.

Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod y gyllideb yn dod i mewn weithiau ac, os oes lluo o broblemau, mae'r partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd fel gweithwyr proffesiynol ac yn cydnabod y ffaith na all y partneriaid gwella ysgolion wella popeth. Fel rheolaeth ariannol wael, materion gwahardd gwael. Maent yn cynnig cymorth mewn dull wedi'i dargedu ar gyfer yr ysgolion hynny.

Ychwanegodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn gweithio'n agos gyda'r cyngor gyda'r Cynllun Datblygu Ysgol. Ble yn y rhanbarth, y byddai penaethiaid lleol yn cyfarfod i werthuso'r cynnydd o'r cynllun blaenorol a'i werthuso. Yna byddai'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn mynd i'r ysgol, yn sicrhau bod y gwerthusiad yn gadarn, ac yn trafod blaenoriaethau allweddol gyda'r partneriaethau i nodi'r anghenion allweddol. Gallai hyn fod trwy awdurdod lleol, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg neu gymysgedd o'r ddau. Pwysleisiwyd bod gan bob ysgol gynnig cyffredinol o wyth diwrnod o gefnogaeth ac, yn ychwanegol at hynny, y rhwydwaith ysgolion dysgu, fel y ddwy ysgol y soniwyd amdanynt yn gynharach yn cydweithio.

Mae'n gyfle ar gyfer dysgu proffesiynol mewn grwpiau wedi'u targedu mewn ysgolion, er enghraifft cymorth i'r arweinwyr canol mewn ysgolion, sy'n beiriannydd dysgu. Mae'r dull haenog yn esblygu bob blwyddyn gan eu bod yn gallu paru'n well â'u partneriaid gwella yn y rhanbarthau i ddiwallu anghenion yr ysgolion mewn dull mwy coeth. Cafwyd trafodaeth ymhlith yr aelodau a phartneriaid y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ynghylch y gyllideb a thynnodd y Dirprwy Brif Swyddog sylw at y newid diwylliannol o gefnogi ysgolion heb bwysau i'w chynnwys mewn partneriaethau.

- Gwnaeth aelod y sylw mai prin y soniwyd am ddisgyblion yn yr adroddiad a bod yr adroddiad bron yn cyfaddef hynny gan ei fod yn datgan ei fod wedi dod i gasgliadau yn yr

argymhellion i wneud yn siŵr bod y mecanweithiau ar waith i gasglu data os yw'r disgyblion yn gwneud cynnydd.

Roedd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Polisi (Gwasanaeth Cyflawni Addysg) yn gwerthfawrogi sylw'r cynghorydd ac eglurodd, o ran y data, ei fod yn bodoli yn yr ysgolion. Aeth ymlaen i nodi na allant ei gydgasglu ar lefel awdurdod lleol i gymharu tablau cynghrair fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Dywedodd y cyfarwyddwr hefyd fod cael y partneriaid gwella i mewn i'r ysgol yn allweddol a chael asesiadau personol, sy'n fwy ansoddol na meintiol.

Amlygwyd bod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu ar y flwyddyn pan oedd y systemau wedi'u lleoli yn y cyfnod pandemig, pan nad oeddent yn gallu cael mynediad i ysgolion yn y cyfyngiadau symud. Mae'r partneriaid wedi dychwelyd llawer mwy i ysgolion ers mis Ebrill ac wedi egluro bod gwaith corfforol yn digwydd.

Diolchodd aelodau'r pwyllgor i'r swyddogion am y gwaith y maent yn ei wneud ac am eu hamser, gan eu canmol am eu gwaith partneriaeth.

## Casgliadau

- Bu'r pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd wrth gyflwyno tystiolaeth, ynghyd ag adroddiad Gwerth am Arian Rhanbarthol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg 2021-22 a gomisiynwyd yn allanol a chyflwyniad PowerPoint. Aelodau. Canmolodd y pwyllgor y bartneriaeth am eu gwaith caled a gwerthfawrogodd fod y swydd yn un anodd. Roeddent yn falch o'r ffigurau yn yr adroddiad ac yn dymuno gwneud sylw bod hon yn teimlo fel partneriaeth wirioneddol.
- Roedd y pwyllgor yn falch o nodi bod arfer da yn cael ei rannu o fewn y bartneriaeth ac ysgolion o'r enghreifftiau a roddwyd gan y swyddogion ac maent yn obeithiol y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.
- Cododd y pwyllgor sylw yn ymwneud yn benodol ag effaith y mesurau cymorth i ysgolion ar wella ysgolion. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed wrth symud i fodel newydd o gymorth ysgol, ond nid oedd diffyg data disgyblion yn ei gwneud hi'n bosibl datgan bod y model wedi arwain at "gynnydd cyflym iawn mewn ysgolion". Mae'r aelodau'n gwerthfawrogi nad yw llawer o'r data cynnydd disgyblion a ddefnyddiwyd yn flaenorol i wneud dyfarniadau ar effeithiolrwydd ysgolion bellach ar gael – cydnabu hyn yn adroddiad Alcott. Argymhellodd yr adroddiad, fodd bynnag, fod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn dod o hyd i systemau i gasglu data o'r fath. Hoffai'r aelodau weld y data hwn fel rhan o adroddiadau yn y dyfodol. Gwerthfawrogi efallai y bydd angen crynhoi'r data os oes swm mawr ohono. Gallai casgliadau o'r data fod yn y prif adroddiad, gyda'r data ategol fel atodiad – efallai fel tablau cryno.
- Roedd y pwyllgor yn dymuno gwneud y sylw y byddai'n braf gweld y ffigur meincnod o 96% yn cael ei gynnal ond roedd yn ymwybodol o bwysau, megis y gostyngiad yn lefelau staff, costau byw a'r codiad cyflog, a allai effeithio ar hynny.
- Holodd y pwyllgor a oedd gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg unrhyw gyfathrebu uniongyrchol â Norse neu waith partneriaeth blaenorol mewn perthynas â'r ysgolion y mae'r ddau ohonynt yn eu cynrychioli. Dywedodd yr aelodau, o ystyried bod y ddau wasanaeth yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion yng Nghasnewydd, y gallai fod yn fuddiol pe bai gwaith partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a Norse i weld sut y gallant wneud y gwelliannau angenrheidiol y mae'r ysgolion yn meddwl y byddent yn elwa ohonynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 6pm

Daeth y cyfarfod I ben am 6.00 pm